

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

Adroddiad Ymateb i Ymgynghoriad

Ar y cynnig i ddarparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion i ateb y galw am addysg Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.
Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709828 i drefnu hyn.

Cynnwys	Tudalen
Cefndir	3
Amlinelliad o'r broses ymgynghori	3
Ymatebion i'r ymgynghoriad	5
Casgliad	7
Atodiad A – Crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny gan Gyngor Bro Morgannwg.	8
Atodiad B – Crynodeb o sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig	19
Atodiad C – Cwestiynau cyffredin	21
Atodiad D – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc	24
Atodiad E – Ymateb gan Estyn	26
Atodiad F- Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant	29
Atodiad G – Ymateb y Cyngor i Gymdeithas Preswylwyr Glannau'r Barri	34

Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 8 Ionawr 2019 a 22 Chwefror 2019, mewn ymateb i gynnig y Cyngor i ddarparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion i ateb y galw am addysg Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r broses ymgynghori, yn darparu trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn cynnig manylion pellach am y materion allweddol a sylwadau ffafriol a godwyd gan randdeiliaid.

Amlinelliad o'r broses ymgynghori

Roedd y prosesau ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Roedd y prosesau ymgynghori'n rhoi'r cyfle i ymgynghoreion penodedig ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn yr holl rai â buddiant er mwyn iddynt allu cael eu cymryd i ystyriaeth cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud.

Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgynghoreion rhagnodedig ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 8 Ionawr 2019. Darparwyd dolen mewn neges e-bost ar gyfer yr ymgynghoreion hefyd, a honno'n mynd â hwy at wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori'n ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac fe'i rhagnodir gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Roedd y ddogfen ymgynghori'n disgrifio'r cynnig a oedd yn cael ei ystyried, y rhesymeg dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys ffurflen ymateb unigol hefyd. Hysbyswyd yr ymgynghoreion fod fersiwn ar-lein ar gael i'w chwblhau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses ymgynghori

Cyflawnwyd gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer y ddau ymgynghoriad ynghylch y cynnig ag ymgynghoreion rhagnodedig yn unol â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Fe ymgynghorodd y Cyngor â'r grwpiau canlynol:

Staff (sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Sant Baruc	Corff Llywodraethu Ysgol Sant Baruc
Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Sant Baruc	Cyngor Tref y Bari
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar (PDBC) Bro Morgannwg

Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad	Cynghorwyr Lleol
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)	Comisiynydd y Gymraeg
Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)	Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg
Estyn	Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Undebau Llafur
Comisiynydd Lleol yr Heddlu a Throseddu	Cyfarwyddwyr Addysg –

Tabl 1 – Rhestr o'r grwpiau i ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori

Gwahoddwyd ymgynghoreion i gwblhau ffurflen ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad a oedd yn gallu cael ei chwblhau ar ffurf copi caled neu ar-lein trwy wefan y Cyngor yn: www.valeofglamorgan.gov.uk/expanding-ysgol-sant-baruc

Cyfarfodydd a sesiynau galw heibio fel rhan o'r broses ymgynghori

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Sant Baruc ac roedd swyddogion y Cyngor yn bresennol ynddynt. Amlygwyd prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori a rhoddwyd eglurhad o'r broses statudol.

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio er mwyn i rieni ac aelodau'r gymuned ofyn cwestiynau am y cynigion a darparu sylwadau anffurfiol.

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod gyda'r staff	16 Ionawr 2019, 3.30pm – 4.30pm	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Cyfarfod gyda'r llywodraethwyr	16 Ionawr 2019, 6pm – 7pm	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned	17 Ionawr 2019, 8.30am – 9.30am 3pm – 4pm	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Sesiwn ymgysylltu â'r disgyblion	17 Ionawr 2019	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Sesiwn galw heibio i'r Gymuned	30 Ionawr 2019, 2.30pm – 6pm	Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU

Tabl 2 – Cyfarfodydd gyda Staff, Llywodraethwyr a Rhieni

Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Sant Baruc i gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiwn hon yn Atodiad D.

Cwestiynau Ymgynghori

Gofynnwyd i'r ymgynghoreion am eu barn ynglŷn â chwestiwn allweddol:

Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021?

Cynigiwyd y cyfle i'r ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn lle'r cynigion, nodwch y rhain isod.


Unrhyw sylwadau eraill?

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law yn ysgrifenedig rhwng 8 Ionawr 2019 a 22 Chwefror 2019 eu nodi isod.

Canlyniadau'r adborth gan yr holl randdeiliaid

Cafodd yr awdurdod 261 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 22 Chwefror 2019. O'r cyfanswm o 261 o ymatebion unigol a gafwyd, roedd 232 o blaid y cynnig, roedd 25 yn ei wrthwynebu, ac nid oedd 4 yn mynegi barn y naill ffordd na'r llall. Fe ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ac mae eu hymateb llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad E.



Siart 1 – Rhaniad yr ymatebion a oedd yn cefnogi neu'n peidio â chefnogi'r cynnig, a'r ymatebion hynny a adawyd yn wag

Nodwyd na wnaeth pob un o'r ymgynghoreion ddarparu ymateb i bob un o'r cwestiynau a bod rhai ffurflenni heb eu cwblhau'n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.


Nid yw adborth o gyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn gan bod y ddogfen ymgynghori'n nodi'n eglur na fyddai'r Cyngor ond yn derbyn ymatebion gan ddefnyddio'r ffurflen swyddogol ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad. Hysbyswyd ymgynghoreion ynghylch hyn yn y sesiynau galw heibio.

Proffil yr ymatebwyr

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddynodi eu rôl mewn perthynas â'r cynnig, ac roedd yr ymatebwyr yn gallu ticio mwy nag un opsiwn.

Grwpiau o ymatebwyr	Nifer yr ymatebion o bob grŵp o ymatebwyr	% yr ymatebion o'r grwpiau o ymatebwyr
Rhiant	109	42
Disgybl	5	2
Llywodraethwr	11	4
Aelod o staff	16	6
Preswlydd lleol	86	33
Arall	71	27

Tabl 3 – Nifer a chanran yr ymatebion gan grwpiau o ymatebwyr



Siart 2 – Rhaniad yr ymatebion gan grwpiau o ymatebwyr a oedd yn cefnogi neu'n peidio â chefnogi'r cynnig, a'r ymatebion hynny a adawyd yn wag

Ymatebion yn ôl themâu

Ceir crynodeb o faterion allweddol a godwyd gan ymgynghoreion statudol a'r ymateb i'r materion hynny gan Gyngor Bro Morgannwg yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r sylwadau a gafwyd o blaid y cynnig yn Atodiad B.

Mae'r ddogfen cwestiynau cyffredin wedi cael ei diweddaru i gynnwys y cwestiynau allweddol a godwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu (Atodiad C).

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Sant Baruc i gynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori. Ceir adroddiad ar ganlyniad y sesiwn hon yn Atodiad D. Cyflwynwyd ymateb ffurfiol gan Estyn ac mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad E.

Cyfeiriwyd y ddogfen ymgynghori at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 12 Chwefror 2019. Mae cofnodion y cyfarfod hwn wedi'u cynnwys yn Atodiad F.

Cyn yr ymgynghoriad, cyflwynwyd nifer o gwestiynau gan Gymdeithas Preswylwyr Glannau'r Barri. Ceir copi o ymateb y Cyngor yn Atodiad G.

Casgliad

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori, mae'r Cyngor wedi ailystyried y cynnig i bennu'r effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio.

Ansawdd a safonau mewn addysg

Byddai'r cynnig hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau mewn addysg. Mae nifer o ymatebion gan rieni, llywodraethwyr ac aelodau o staff wedi nodi cyfyngiadau'r safle presennol a fyddai'n ei gwneud yn anodd rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llawn. Mae Estyn hefyd wedi ymateb i'r ymgynghoriad, gan ddatgan, 'Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol, neu eu gwella, o ran yr addysg, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth'.

Effaith ar y Gymuned

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ei gynnal a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ynghylch cynnwys yr asesiad. Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol trwy fwy o gyfleusterau cymunedol, cyfatebiaeth fwy effeithlon rhwng y galw am leoedd mewn ysgolion a'r cyflenwad ohonynt, a lleoli'r ysgol yn fwy canolog o fewn y dalgylch.

Trefniadau teithio

Codwyd nifer o bryderon yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch mwy o teithio oherwydd lleoliad adeilad newydd yr ysgol. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, byddai lleoliad adeilad newydd yr ysgol yn arwain at leoliad mwy canolog yn y dalgylch.

Atodiad A – Crynodeb o'r materion allweddol a godwyd gan ymgynghori statudol a'r ymateb i'r materion hynny gan Gyngor Bro Morgannwg.

Mae'r canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn cyflwyno trosolwg o'r ymatebion ac nid ydynt wedi'u bwriadu i'w cyfleu air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i Aelodau'r Cabinet.

Mater 1

Mae angen rhagor o leoedd mewn Ysgolion Cynradd Saesneg ar gyfer preswylwyr newydd datblygiad Glannau'r Barri. Mae preswylwyr Glannau'r Barri yn gorfod teithio pellterau mawr i gyrraedd ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.

Ceir nifer o ymatebion sy'n dynodi bod rhai o breswylwyr datblygiad Glannau'r Barri wedi prynu eu tai gan fwriadu anfon eu plant i ysgol Saesneg. Ceir pryderon y byddai angen i'r preswylwyr hynny deithio'n bellach i ysgolion Saesneg presennol yn y Barri. Mae rhai ymatebwyr o'r farn y byddai mwy o alw am ysgol gynradd Saesneg o ddatblygiad Glannau'r Barri nag am ysgol gynradd Gymraeg. Mae hyn eisoes yn effeithio ar deuluoedd presennol sy'n methu ag anfon eu plant i'r ysgolion Saesneg a nodwyd ganddynt fel dewis cyntaf.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Ceir 11 o ysgolion cynradd Saesneg o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri. Ar y cyfan, ceir 13 o ysgolion cynradd Saesneg ar hyd a lled y Barri. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y lleoedd gwag ym mhob un o'r 13 ysgol gynradd yn y Barri. Ar y cyfan, mae 177 o leoedd gwag ar draws ysgolion y Barri.

Ysgol	Capasiti'r Ysgol	Cyfanswm ar y Gofrestr	Cyfanswm y Lleoedd Gwag
Yr Holl Saint	210	206	4
Ynys y Barri	210	208	2
Tregatwg	420	409	11
Colcot	315	293	22
Gwenfô	210	205	5
Gladstone	420	397	23
High Street	210	213	0
Holton	420	389	31
Parc Jenner	210	212	0
Oakfield	210	170	40
Palmerston	210	205	5
Romilly	630	621	9
Sain Helen	308	283	25
Cyfanswm	3983	3811	177

Tabl 4 – Capasiti ysgolion cynradd Saesneg o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri

Ysgolion Cynradd High Street, Romilly, Ynys y Barri a Holton yw'r ysgolion cynradd Saesneg agosaf at ddatblygiad Glannau'r Barri. Ceir capasiti cyfyngedig yn

ysgolion cynradd Ynys y Barri, Romilly a High Street. Fodd bynnag, mae'r tabl isod yn dangos canlyniad y cylch derbyn cyntaf ar gyfer dosbarthiadau derbyn ym mis Medi 2018.

Ysgol	Nifer Derbyn Cyhoeddedig	Dyraniadau	Plant sy'n Derbyn Gofal	Anghenion Addysgol Arbennig	Dalgylch	Meddygol/ Cymdeithasol	Siblingiaid	Agosrwydd
Ynys y Barri	30	30	1	0	16	0	2	11
High Street	30	27	0	0	14	1	3	9
Holton	60	42	0	0	34	0	2	6
Romilly	90	90	0	0	59	0	8	23

Tabl 5 – Dyraniad lleoedd yn yr ysgolion cynradd Saesneg agosaf at ddatblygiad Glannau'r Barri

Dengys y tabl fod dros draean o'r lleoedd a ddyrannwyd wedi'u dyrannu i ddisgyblion nad ydynt yn byw yn nalgylch yr ysgolion. Roedd gan Ysgolion Cynradd High Street a Holton leoedd ar gael ar ôl y cylch derbyn cyntaf.

Mae dyrannu lle mewn ysgol y tu allan i gylchoedd derbyn arferol (e.e. trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn) yn fwy o her gan fo ysgolion yn aml yn cyrraedd eu capasiti wrth dderbyn disgyblion i ddosbarthiadau meithrin. Fodd bynnag, dengys y tabl uchod nad yw nifer fawr o'r disgyblion hyn yn byw o fewn y dalgylch.

Mae amcanestyniadau'n dynodi y disgwylir diffyg bach o ran lleoedd mewn ysgolion cynradd Saesneg erbyn 2022. Gellid ateb y galw hwn trwy ailasesu capasiti ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf tynnwyd capasiti o ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner trwy ail-ddynodi defnydd ystafelloedd. Roedd gan yr ysgolion leoedd gwag yn flaenorol y gellid trefnu eu bod ar gael i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg sydd ar gael. Mae'r ddwy ysgol hon o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri. Fodd bynnag, wrth i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg gynyddu, rhagwelir y bydd gostyngiad cyfatebol yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg. Ers 1998, gwelwyd gostyngiad o 5.8% yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg yn ardal y Barri, a chynnydd o 6.7% yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Mater 2

Dylai cyllid y Cyngor gael ei wario mewn meysydd sy'n flaenoriaeth megis y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ceir pryderon y dylai cyllid gael ei ddyrannu i gynnal ysgolion presennol a'r gwasanaethau cymdeithasol. Ceir awgrymiadau y dylai datblygwyr tai preifat ysgwyddo cost darparu seilwaith addysgol ychwanegol.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'r Cyngor wedi sicrhau 65% o'r cyllid ar gyfer y cynnig dan Fand B o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Llywodraeth Cymru yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Dim ond ar gyfer buddsoddiad hirdymor mewn adeiladau addysgol ledled Cymru y mae'r cyllid hwn ar gael. Bydd gweddill y cyllid ar gyfer adeilad newydd yr ysgol yn dod o gytundeb Adran 106 gyda'r consortiwm o adeiladwyr tai sy'n datblygu ardal Glannau'r Barri. Mae hyn yn golygu na fyddai'r buddsoddiad posibl yn adeilad newydd yr ysgol yn mynd â chyllid i ffwrdd oddi wrth ysgolion presennol na gwasanaethau cyhoeddus eraill. Y consortiwm o adeiladwyr tai fydd yn gyfrifol am godi adeilad newydd yr ysgol.

Neilltuir £600,000 bob blwyddyn o fewn y rhaglen gyfalaf ar gyfer adnewyddu asedau addysgol. Defnyddir hwn ar gyfer gwaith cynnal a chadw sy'n flaenoriaeth y mae angen ei wneud ar draws ysgolion ym Mro Morgannwg.


Mater 3

Byddai'n rhaid i ddisgyblion presennol Ysgol Sant Baruc deithio'n bellach i gyrraedd adeilad newydd yr ysgol.

Ceir pryderon y byddai'n rhaid i ddisgyblion a staff presennol Ysgol Sant Baruc deithio'n bellach i'r safle arfaethedig, gan arwain at ragor o broblemau gyda thraffig sy'n effeithio ar ddatblygiad Glannau'r Barri. Hoffai rhai ymatebwyr sicrhau bod llwybrau cerdded diogel digonol i'r safle newydd er budd iechyd a lles plant.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Ni fyddai dalgylch Ysgol Sant Baruc yn cael ei newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae'r map canlynol yn cymharu safle'r ysgol newydd (coch) a'r adeilad presennol (glas).



Map 1 – Lleoliad presennol ac arfaethedig safle Ysgol Sant Baruc gyda'r dalgylch wedi'i ddynodi

Byddai safle adeilad newydd yr ysgol yn arwain at leoliad mwy canolog yn y dalgylch. Gallai hyn olygu llai o amser teithio i nifer o ddisgyblion presennol.

Byddai adeilad newydd yr ysgol yn cynnwys cyfleusterau parcio ceir ar gyfer staff. Ni ddarperir hyn yn Ysgol Sant Baruc ar hyn o bryd. Gall tagfeydd ddigwydd ar y ffordd fynediad bresennol o amgylch Ysgol Sant Baruc yn ystod oriau brig ar hyn o bryd, yn enwedig am fod yr ysgol yn rhannu ffordd fynediad gydag Ysgol Gynradd High Street.

Byddai dyluniad adeilad newydd yr ysgol yn ystyried goblygiadau o ran trafndiaeth, gan gynnwys llwybrau cerdded diogel. Byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal a byddai'n rhaid cael caniatâd cynllunio i'r dyluniad.

Mater 4

Hysbyswyd rhieni mai ysgol Saesneg fyddai'r ysgol newydd ar ddatblygiad Glannau'r Barri.

Ceir nifer o ymatebion sy'n dynodi bod darpar breswylwyr Glannau'r Barri wedi cael eu hysbysu'n flaenorol mai ysgol Saesneg fyddai'r ysgol gynradd arfaethedig. Mae rhai ymatebion yn awgrymu symud ysgol gynradd High Street i ddatblygiad Glannau'r Barri i ddarparu addysg cyfrwng Saesneg, ac y dylai Ysgol Sant Baruc ehangu i mewn i'w hadeilad.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Ni wnaed unrhyw benderfyniadau ac ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau'n flaenorol ynghylch yr ysgol newydd ar Lannau'r Barri.

Mae Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu y dylai'r Cyngor sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac addysg uwchradd ar gael yn ardal y Cyngor. Ni ddylid ystyried bod yr ysgolion sydd ar gael mewn ardal yn ddigon oni bai eu bod yn ddigon o ran eu nifer, eu cymeriad a'u hoffer i ddarparu'r cyfle i'r holl ddisgyblion gael addysg briodol.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cynnwys canllawiau statudol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol roi ystyriaeth iddynt ac yn nodi'r cyd-destun polisi, egwyddorion cyffredinol a ffactorau a ddylai gael eu cymryd i ystyriaeth gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion gerbron i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion a chan y rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch cynigion. Mae Paragraff 1.1 o'r Cod yn nodi'r egwyddorion a pholisïau cefndir allweddol, a ddylai gael eu cymryd i ystyriaeth gan y Cyngor wrth ddatblygu cynigion trefniadaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler isod)
- Cymraeg 2050, Miliwn o Siaradwyr
- Cynllun Gweithredu, Cymraeg 2050
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, cynllun datblygu cynaliadwy newydd ar gyfer Cymru Mai 2009 neu unrhyw strategaeth sy'n ei olynu
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011 Rhif dogfen wybodaeth 95/2011), neu unrhyw strategaeth sy'n ei holynu
- Ffydd mewn Addysg
- Cynlluniau lleol ar gyfer datblygu economaidd neu ddatblygu tai
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a wnaed dan ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013)

- Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (neu gynlluniau sy'n eu holynu)
- Ysgolion yr 21ain Ganrif – Rhaglen Fuddsoddi Gyfalaf a'r don berthnasol o fuddsoddiadau
- Teithio gan ddysgwyr: darpariaeth statudol a chanllawiau gweithredol: <https://llyw.cymru/teithio-gan-ddysgwyr-darpariaeth-statudol-chanllawiau-gweithredol>
- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru, Cylchlythyr Rhif: 021/2011: <https://llyw.cymru/mesur-capasiti-ysgolion-canllawiau>
- Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc

Wrth ddatblygu'r cynnig hwn barnwyd mai cynyddu'r lleoedd mewn ysgolion Cymraeg oedd yr opsiwn a ffeirir gan ei fod o gymorth i fynd i'r afael â'r heriau canlynol.

- Mae'n cyfrannu'n effeithiol at Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bro Morgannwg 2017-2020.
- Mae'n cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Mae'n darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer Gorllewin y Barri.
- Mae'n sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymateb i'r galw am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg a ragwelir yn y dyfodol yn unol â'r tueddiadau cyfredol.
- Mae'n darparu lleoedd cynradd ychwanegol i ateb y galw uwch o ganlyniad i ddatblygiadau tai diweddar.
- Mae'n mynd i'r afael ag addaswydd gwael adeiladau presennol Ysgol Sant Baruc.

Rhodddwyd ystyriaeth i ehangu Ysgol Gynradd High Street a throsglwyddo'r ysgol i'r ysgol newydd ar Lannau'r Barri fel opsiwn. Fodd bynnag, cafodd yr opsiwn ei ddiystyru am y rhesymau canlynol:

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion presennol gyda'r safle yn Ysgol Sant Baruc.
- Mae digon o le yn Ysgol Gynradd High Street fel a nodir gan Fwletin Adeiladu 99 Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd.
- Byddai'n mynd yn groes i'r duedd o ran bod rhieni'n gynyddol yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae digon o gapasiti cyfrwng Saesneg i ateb y galw a ragwelir.
- Ni fyddai'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 ac nid yw'n cyfrannu at strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 y Llywodraeth.

Mater 5

Mae'r broses yn cymryd gormod o amser ac mae problemau o ran ymddiriedaeth rhwng preswylwyr a'r consortiwm.

Ceir nifer o ymatebion sy'n dynodi bod darpar breswylwyr Glannau'r Barri wedi cael eu hysbysu'n flaenorol y byddai'r ysgol gynradd arfaethedig yn cael ei chwblhau'n gynharach na'r ffrâm amser a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad. Ceir pryderon hefyd ynghylch cymhelliad y consortiwm adeiladu i gyflawni'r ysgol gynradd o fewn y ffrâm amser. Yn gysylltiedig â hyn ceir pryderon y byddai methu â chwblhau'r ysgol erbyn mis Medi 2021 (fel a gynigir) yn effeithio'n negyddol ar y paratodau ar gyfer

y cwricwlwm newydd, sydd i fod i gael ei roi ar waith yn 2022.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae ysgol newydd â 420 o leoedd ar Lannau'r Barri wedi cael ei chynnwys fel rhan o raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor. Nid yw Band B Rhaglen yr 21^{ain} Ganrif yn dechrau tan fis Ebrill 2019. Mae'r ysgol newydd ar Lannau'r Barri wedi cael ei hadnabod fel prosiect sy'n flaenoriaeth a byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni ar ddechrau'r rhaglen 5 mlynedd. Byddai disgwyl i'r gwaith ddechrau ar y safle o fis Ionawr 2020 gyda'r rhaglen adeiladu'n para 18 mis. Byddai'r ysgol yn cael ei chwblhau erbyn mis Medi 2021. Mae'r ffrâm amser hon yn seiliedig ar brofiadau o adeiladu ysgolion cynradd tebyg ym Mand A y rhaglen.

Byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Consortiwm a'u contractwr penodedig trwy gydol y broses o ddylunio ac adeiladu'r ysgol newydd. Byddai cytundeb yn cael ei lunio a hwnnw'n cynnwys graddfeydd amser ar gyfer cwblhau.

Ar 3 Rhagfyr 2018, cyflwynodd y Cyngor Hysbysiad Gorfodi ar Dorri Amod Cynllunio i'r consortiwm o adeiladwyr tai yn gwahardd anheddu cartrefi newydd ymhellach ar ran South Quay Parkside yn natblygiad Glannau'r Barri nes bod yr unedau caffï a bwyty yn y Ganolfan Ardal wedi cael eu cwblhau.

Mater 6

Byddai cyfrwng Saesneg yn fwy defnyddiol i ragolygon economaidd dysgwyr a'r gymuned ehangach yn y dyfodol.

Ceir pryderon na fyddai'r Gymraeg mor ddefnyddiol mewn cymdeithas fwyfwy bydeang ag addysg cyfrwng Saesneg. Roedd rhai o'r ymatebion yn awgrymu bod darparu lleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn darparu ar gyfer lleiafrif bach a'i fod felly'n benderfyniad economaidd gwael. Ceir awgrymiadau y dylid darparu rhagor o gyllid ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg i gynyddu cysylltiadau â gweddill y Deyrnas Unedig.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae dysgu ail iaith o oedran cynnal yn helpu plant i ddatblygu clust ar gyfer ieithoedd ac yn rhoi mantais gynnar iddynt ar gyfer dysgu trydedd neu bedwaredd iaith wrth iddynt fynd yn hŷn. Mae plant dwyieithog yn tueddu i fod â chyflawniad uwch o fewn y cwricwlwm a pherfformio'n well mewn arholiadau. Ar gyfartaledd mae pobl ddwyieithog yn ennill incwm sydd 11% yn fwy nag incwm pobl unieithog. Yng Nghymru mae siarad Cymraeg yn sgil ar gyfer y gweithle, yn enwedig yn y sector cyhoeddus a'r sector gwasanaethau, ac oherwydd newidiadau diweddar i'r gyfraith mae ar fwy a mwy o gyflogwyr angen gweithlu dwyieithog. Mae dysgu trwy gyfrwng iaith arall yn helpu plant i ddatblygu mwy o sensitifrwydd i ddiwylliannau a chefnidiroedd eraill. Mae siarad Cymraeg hefyd yn rhoi perthynas fwy clos i bobl â hanes, treftadaeth a thraddodiadau Cymru.

Rhaid i bob sefydliad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith wedi creu mwy o alw am

weithlu dwyieithog.

Mae adroddiad Estyn (Mai 2018) yn amlygu bod gan bron pob disgybl yn Ysgol Sant Baruc sgiliau llafaredd eithriadol o dda, eu bod yn cyfathrebu'n hyderus ac yn naturiol yn y Gymraeg ac yn Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, a'u bod yn ymfalchïo'n fawr yn y ffaith eu bod yn gallu siarad Cymraeg ac yn defnyddio'u hiaith i safon uchel iawn y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Roedd 39 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn sôn yn arbennig am y safonau addysg uchel a ddarperir gan Ysgol Sant Baruc yn eu tyb hwy, yn enwedig er gwaethaf cyfleusterau annigonol yn yr adeilad ac ar y safle.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi arwain at gynnydd mewn dysgwyr dwyieithog ac mae'n amcanu at barhau â'r duedd hon i sicrhau bod digon o gapasiti dros y tymor hir. Mae Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sydd wedi'i fwriadu i sicrhau bod y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn gallu cael ei ateb yn y tymor hir, yn unol â Strategaeth Genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at ei tharged uchelgais i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bu twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg dros y 18 mlynedd ddiwethaf ers agor Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a buddsoddi mewn ysgolion cynradd Cymraeg. Mae Ysgol Dewi Sant yn Llanilltud Fawr yn un enghraifft o'r fath o ysgol gynradd Gymraeg boblogaidd. Agorodd ym mis Medi 2011 gyda 3 disgybl yn mynd i mewn i'r dosbarth derbyn, a dim ond 7 mlynedd yn ddiweddarach cafwyd goralw o blith y rhai a oedd yn dymuno mynd i mewn ym mis Medi 2018 gyda 32 o ymgeiswyr am 30 o leoedd. Mae Ysgol Sant Baruc wedi cael mwy na 30 o geisiadau i fynd i mewn i'r dosbarth derbyn ym mis Medi 2019 sy'n golygu bod goralw am leoedd yn yr ysgol. Ers 1998, gwelwyd gostyngiad o 5.8% yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal y Barri, a chynnydd o 6.7% yn y galw am addysg Gymraeg.

Nid yw'r mwyafrif llethol o rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg yn y Fro yn siarad Cymraeg eu hunain; yn achos Ysgol Sant Baruc nid yw 75% o'r rhieni'n siarad Cymraeg. Mae ysgolion Cymraeg ym Mro Morgannwg wastad yn cyfathrebu gyda rhieni yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Ysgol Sant Baruc yn darparu'r holl ohebiaeth yn ddwyieithog, gan gynnwys llythyrau, negeseuon trydar, gwaith cartref, cyflwyniadau i rieni yn yr ysgol, a chyfarfodydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Ceir polisi drws agored yn yr ysgol i rieni gael help gyda geiriau neu ynganu os oes unrhyw anawsterau. Mae Cymraeg i Oedolion yn cael ei hyrwyddo ledled Bro Morgannwg gydag ystod o gyrsiau ar gael o lefel dechreuwyr i lefel hyfedredd. Mae nifer o rieni Ysgol Sant Baruc wedi bod yn mynychu cyrsiau Cymraeg am dair neu bedair blynedd. Ceir nifer o gylchoedd chwarae cyn-ysgol sy'n cael eu rhedeg gan y Mudiad Meithrin yn y Fro hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth yn y llyfryn Bod yn Ddwyieithog:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Education%20and%20Skills/Admissions-Guide/Being-Bilingual-booklet-English.pdf>

Mater 7

Byddai costau cynnal a chadw ac adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi ysgol fwy yn uwch ac efallai na fyddent yn cael eu darparu'n ddigonol gan y Cyngor.

Er bod cynyddu capasiti'r ysgol yn angenrheidiol i ymateb i'r cynnydd yn y galw, ceir awgrymiadau y byddai hyn yn dwyn goblygiadau ar gyfer cyllideb yr ysgol. Roedd rhai ymatebion yn pwysleisio'r angen i ddarparu digon o gyllid ac athrawon i ymateb i'r cynnydd yn nifer y disgyblion. Ceir pryderon ynghylch y ffaith bod ysgolion ar y cyfan yn cael eu tanariannu a bod adnoddau addysgu'n gorfod ymestyn yn rhy bell.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu y dylai'r Cyngor sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac addysg uwchradd ar gael yn ardal y Cyngor. Ni ddylid ystyried bod yr ysgolion sydd ar gael mewn ardal yn ddigon oni bai eu bod yn ddigon o ran eu nifer, eu cymeriad a'u hoffer i ddarparu'r cyfle i'r holl ddisgyblion gael addysg briodol.

Byddai angen cyllid referniw ychwanegol ar gyfer costau gweithredol yr ysgol newydd. Byddid yn cwrdd â'r costau referniw ychwanegol a fyddai'n deillio o'r ffaith bod niferoedd y disgyblion yn uwch trwy'r fformiwla cyllido ysgolion sy'n dyrannu'r mwyafrif o'r cyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Wrth i niferoedd y disgyblion gynyddu, byddai lefel y cyllid ar y cyfan yn cynyddu hefyd.

Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol gan y byddai disgyblion ychwanegol yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol. Pe bai'r ysgol yn symud i safle newydd, byddai angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried cynnydd yn y strwythur staffio ar gyfer y disgyblion ychwanegol o fis Medi 2021. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythur staffio'n amodol ar ymgynghori'n llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle y bo angen. Bydd nifer y disgyblion sy'n mynd i mewn i'r ysgol yn cynyddu dros sawl blwyddyn gan olygu y gellir addasu lefelau staffio yn ôl yr hyn sy'n briodol gyda rhybudd rhesymol o'r gofynion yn y dyfodol.

Ceir cyfleoedd hefyd i ddefnyddio'r adeilad a'r asedau ar y safle newydd fel modd i greu incwm ar gyfer yr ysgol. Mae ysgolion blaenorol ym Mand A rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif wedi gallu rhoi ystafelloedd cyfarfod a chyfleusterau chwaraeon neu berfformio ar log i'r gymuned ehangach. Mae aelodau o'r Gymdeithas Preswylwyr eisoes wedi mynegi diddordeb mewn bod â lle yn natblygiad newydd Glannau'r Barri i ddod ynghyd ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cymunedol.

Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safon "Rhagorol" BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu fel ei fod yn cael A fel sgôr EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni). Mae hyn yn golygu y byddai'r costau cynnal a chadw a chostau ynni parhaus yn is am fod gan yr ysgol gyfleusterau effeithlon sydd wedi'u hadeiladu i safonau modern. Byddai paneli ffotofoltaig yn cael eu gosod hefyd, gan leihau'r ynni y byddai angen ei brynu o'r grid. Ar hyn o bryd mae cost yr ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw ar gyfer Ysgol Sant Baruc yn £80,800. Trwy fuddsoddi mewn adeilad newydd byddai pwysau ariannol uniongyrchol yr ysgol yn is.

Byddai rhan o'r buddsoddiad dan raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn cael ei defnyddio i dalu am offer addysgu modern, megis darpariaeth TGCh. Mae bwriad i gynnal proses "cynllunio etifeddiaeth" ar gyfer eitemau sylweddol neu

drosglwyddadwy gyda'r ysgolion hefyd i helpu i rwyddhau'r trosglwyddiad i'r cyfleusterau newydd, cynnal cysylltiad â hanes yr ysgol, ac osgoi gwastraffu adnoddau. Byddai'r ffactorau hyn yn lleihau'r angen i ysgolion brynu offer drud yn uniongyrchol.

Mater 8

Ysgol newydd, ar wahân i wasanaethu datblygiadau tai newydd yn unig ddylai'r ysgol arfaethedig ar Lannau'r Barri fod.

Ceir nifer o ymatebion sy'n dynodi ffafriaeth o blaid darparu ysgol newydd sbon ar gyfer preswylwyr datblygiad Glannau'r Barri.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Byddai agor ysgol newydd yn arwain at gostau gorbenion ychwanegol y byddai angen i'r Cyngor eu hariannu. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ysgolion eraill ledled Bro Morgannwg. Ar gyfartaledd, £790,000 yw cyllideb flynyddol ysgol gynradd â 210 o leoedd. Mae cyllideb refeniw Ysgol Sant Baruc ar gyfer 2018/19 yn £760,000. Pe bai ysgol newydd â 210 o leoedd yn cael ei chynnig ar gyfer Glannau'r Barri, £1,550,000 fyddai cost debygol rhedeg y ddwy ysgol. Amcangyfrifir mai £1,430,000 yw costau rhedeg ysgol â 420 o leoedd. Felly, byddai agor ysgol newydd â 210 o leoedd yn costio £120,000 y flwyddyn yn fwy na'r opsiwn arfaethedig.

Un o amcanion allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yw mynd i'r afael â chyflwr asedau addysgol. Ni fyddai adeiladu ysgol newydd sbon ar gyfer datblygiad Glannau'r Barri yn mynd i'r afael â chyflwr asedau addysgol presennol. Mae gan Ysgol Sant Baruc brif adeilad o Oes Fictoria a bloc â dwy ystafell ddosbarth a godwyd yn y 1980au. Er bod yr adeiladau mewn cyflwr gweddol ar y cyfan, nid yw'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn addas i'w diben o ran y canlynol;

- Mae'r ysgol ar safle cyfyng iawn ar lethr gyda lle cyfyngedig iawn ar gyfer hamdden awyr agored a heb unrhyw obaith o gynyddu'r safle'n sylweddol i gyrraedd safonau ysgolion yr 21^{ain} Ganrif
- Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn defnyddio'r cyfleusterau ffreutur yn Ysgol Gynradd High Street drws nesaf gan nad oes darpariaeth arlwyyo yn yr ysgol
- Hefyd, nid yw 6 o'r 8 ystafell ddosbarth yn ddigon mawr ar gyfer 30 o ddisgyblion.

Mae adroddiad diweddaraf Estyn yn amlygu'r ffaith bod diffyg cyfleusterau ffreutur a lle hamdden annigonol yn effeithio'n negyddol ar lesiant disgyblion.

Mater 9

Mae'r safle arfaethedig ar dir wedi'i adfer ac yn agos at y llinell reilffordd.

Ceir pryderon ynghylch ansawdd yr aer a'r pridd ar y safle arfaethedig. Awgrymir arolygon a gwaith adferol i sicrhau bod y safle'n ddigonol ar gyfer y safle newydd arfaethedig. Ceir pryderon hefyd y bydd y safle newydd arfaethedig yn agos at y llinell reilffordd bresennol, a allai achosi llygredd sŵn a hynny'n effeithio ar ddysgu.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae ymchwiliadau i'r safle'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Byddai'r tir yn cael ei adfer i sicrhau ei fod yn cyrraedd safonau sy'n briodol ar gyfer amgylchedd ysgol.

Byddai profion acwsteg yn cael eu cynnal fel rhan o'r prosiect a byddai'r adeilad yn cael ei ddylunio fel ei fod yn ateb gofynion o ran acwsteg a nodir ym Mwletin Adeiladu 99. Nid yw'r rheilffordd y tu ôl i'r ysgol yn rhan o'r brif reilffordd rhwng Caerdydd a'r Barri.

Mater 10

Ni ofynnwyd i breswylwyr Glannau'r Barri am eu barn.

Ceir nifer o ymatebion yn mynegi pryderon na ofynnwyd i breswylwyr Glannau'r Barri beth fyddai eu dewisiadau hwy cyn datblygu'r cynnig. Mae'r pryderon hyn yn gysylltiedig yn arbennig â chyfrwng iaith a threfniadau cludiant yr ysgol arfaethedig.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae cynigion dan raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn seiliedig ar ffactorau lluosog; megis addasrwydd cyfleusterau addysgol, tueddiadau o ran derbyniadau i ysgolion penodol, arolygon o gyflwr adeiladau, tueddiadau yn y boblogaeth, newidiadau deddfwriaethol, a hyfywedd ariannol. Rhoddir ystyriaeth i opsiynau lluosog o archwilio'r data a gasglwyd ac yna cyflwynir cynnig a ffeirir i'r Cabinet, ynghyd â dewisiadau eraill, er mwyn ei gymeradwyo ar gyfer y cam ymgynghori. Mae hyn yn golygu bod y cynigion yn seiliedig ar y dystiolaeth gadarn orau sydd ar gael, anghenion yr ysgol, ac ystyriaethau gan adrannau lluosog yn y Cyngor cyn eu bod yn cael eu gwneud yn agored ar gyfer adborth gan y cyhoedd.

Cyn yr ymgynghoriad ynghylch Ysgol Sant Baruc, cyfarfu Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif â chynrychiolydd o Gymdeithas Preswylwyr Glannau'r Barri a buont yn trafod cwestiynau a gyflwynwyd gan breswylwyr fel rhan o'r arolwg a gynhaliwyd gan y Gymdeithas Preswylwyr. Fe ymatebodd y Cyngor i'r ymholiadau a godwyd gan y preswylwyr ac fe'u cynhwysodd fel rhan o'r Cwestiynau Cyffredin yn y ddogfen ymgynghori (atodiad G).

Mae'r Cyngor wedi cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i bartïon â buddiant ymgysylltu fel rhan o'r broses ymgynghori er mwyn ceisio adborth ar y cynnig hwn. Mae'r adborth a ddarparwyd hyd yma wedi bod yn anhygoel o werthfawr, wedi cael ei ystyried yn ofalus ac yn cael ei grynhoi yn yr adroddiad hwn a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ac ar Gydraddoldeb. Bydd yr holl adborth gan unigolion neu sefydliadau ar yr wybodaeth ychwanegol yn cael ei ystyried cyn bod y Cabinet yn gwneud penderfyniad.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau sy'n rhan ohonynt, ac mae gan

y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn eglur, yn dryloyw, ac yn adlewyrchu'r rhai yr effeithir arnynt. Mae hon yn weledigaeth na ellir ond ei gwireddu trwy weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach yr ydym ni i gyd yn eu gwasanaethu.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau ymgysylltu fel rhan o'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod gyda'r staff	16 Ionawr 2019, 3.30pm – 4.30pm	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Cyfarfod gyda'r llywodraethwyr	16 Ionawr 2019, 6pm – 7pm	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Sesiwn galw heibio i Rieni a'r Gymuned	17 Ionawr 2019, 8.30am – 9.30am 3pm – 4pm	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Sesiwn ymgysylltu â'r disgyblion	17 Ionawr 2019	Ysgol Sant Baruc, St Pauls Avenue, Y Barri, CF62 8HT
Sesiwn galw heibio i'r Gymuned	30 Ionawr 2019, 2.30pm – 6pm	Y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU

Tabl 6 – Sesiynau ymgysylltu gyda gwahanol randdeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad

Mater 11

Byddai'r ethos ysgol fach yn cael ei golli trwy ehangu capasiti'r ysgol.

Ceir rhai pryderon y byddai cymuned glòs yr ysgol yn cael ei lleihau trwy gynyddu nifer y disgyblion a gweithio mewn adeilad mwy.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae Pennaeth a chorff llywodraethu Ysgol Sant Baruc yn hyderus na fyddai ethos yr ysgol yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Byddai'r holl staff a llywodraethwyr yn trosglwyddo i'r safle newydd o fis Medi 2021. Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn cynnwys ardaloedd cymunol a manau neilltuo.

Byddai'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion yn digwydd yn raddol gyda'r nifer derbyn yn cynyddu o 30 i 60 o fis Medi 2021. Ni allai'r ysgol fod â 420 o ddisgyblion tan fis Medi 2027.

Byddai staff a disgyblion yn cael eu cefnogi'n llawn trwy'r broses drosglwyddo a byddent yn cael eu cynnwys trwy gydol y broses dylunio ac adeiladu.

Mater 12

Dylai'r ysgol newydd ddarparu ar gyfer cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Mae rhai ymatebion yn awgrymu y dylai'r ysgol arfaethedig ar safle'r Glannau ddarparu ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg yn ôl

cyfradd o 50% yr un i ddarparu ar gyfer pob dewis.

Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth yn flaenorol i ysgolion cynradd â dwy ffrwd, a fyddai'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor nifer o bryderon o hyd ynghylch y model hwn, yn enwedig o ran addysg drochi, derbyniadau a rheolaeth effeithiol ar gyllid refeniw.

Atodiad B – Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd o blaid y cynnig.

Mae'r adran hon yn darparu detholiad o sylwadau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai a oedd o blaid y cynnig. Mae'r canlynol yn cyflwyno trosolwg o ymatebion ac nid ydynt yn gynhwysfawr nac wedi'u bwriadu i gyfleu'r ymatebion air am air. Trefnwyd fod yr holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i aelodau'r cabinet.

Sylw 1

Byddai mynediad at gyfleusterau arlwygo ac awyr agored digonol o fudd i iechyd a llesiant disgyblion.

Byddai Ysgol Sant Baruc yn cael budd mawr o gyfleusterau gwell megis ei ffreutur a'i ardaloedd chwarae glaswelltog ei hun. Ar hyn o bryd eir â'r disgyblion i ysgol gynradd High Street ar gyfer prydau twym, sy'n lleihau'n sylweddol yr amser sydd gan y disgyblion i fwyta'u cinio ac sy'n golygu bod rhaid i staff ganolbwyntio ar hebrwng disgyblion yn hytrach na darparu gweithgareddau ychwanegol. Y gobaith yw y byddai darpariaeth ffreutur ddigonol yn cynyddu'r amser sydd ar gael i gymdeithasu a dysgu. O ran mannau awyr agored, mae disgyblion yn cwmpo'n aml ar y tarmac caled sydd ar lethr, gan achosi nifer o anafiadau. Mae hefyd yn anodd darparu addysg chwaraeon i lefel a ddatblygwyd mewn ysgolion cynradd eraill oherwydd y safle cyfyngedig. Mae ymatebion yn amlygu'r manteision y byddai cyfleusterau awyr agored gwell yn eu dwyn o ran iechyd, gallu ym myd y campau, a dysgu.

Sylw 2

Byddai'r cyfleusterau newydd arfaethedig yn gwella safonau addysgol a gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol.

Nid yw'r safle presennol yn addas i'w ddiben. Mae angen cyfleusterau gwell i gynorthwyo'r staff addysgu i gyflawni'r safonau rhagorol a gyflawnir ganddynt ar hyn o bryd ar raddfa ehangach. Byddai'r manteision y gall y safle newydd eu dwyn yn galluogi hyn i ddigwydd. Ar hyn o bryd nid oes digon o le mewn rhai o'r ystafelloedd dosbarth i ddisgyblion fod ag ardal weithio ddigonol, nid oes cyfleusterau penodol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol fel gwersi cerddoriaeth, ac mae mannau addas ar gyfer darpariaeth ADY yn gyfyngedig iawn. Mae hefyd yn anodd ateb gofynion TGCh y cwricwlwm am nad oes digon o gyfleusterau. Mae ymatebion yn gobeithio y byddai'r cyfleusterau newydd arfaethedig yn rhoi cymorth gwell i ddarparu'r cwricwlwm ar gyfer ystod ehangach o ddisgyblion ac yn ei gwneud yn bosibl cynnal gweithgareddau ychwanegol megis chwaraeon a dysgu digidol.

Sylw 3

Mae cynyddu mynediad at addysg ddwyieithog o fudd i ddysgwyr y dyfodol.

Mae cael addysg ddwyieithog yn cynnig manteision sylweddol. Ceir cyfoeth o dystiolaeth ymchwil sy'n dynodi bod plant yn cael budd mawr o fod yn ddwyieithog, o safbwynt gwybyddol, diwylliannol a chymdeithasol. Mae rhieni plant sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sant Baruc nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi sôn am eu

hapusrwydd eu bod yn gallu rhoi addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant, a hwythau wedi methu â phrofi hynny eu hunain. Ceir cefnogaeth i ddathlu diwylliant Cymraeg a darparu cyfleoedd i blant trwy addysg ddwyieithog sy'n gwella'u rhagolygon swyddi yn y dyfodol.

Sylw 4

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ehangu yn yr ardal leol a byddai ehangu'r ysgol yn cefnogi'r twf hwn.

Byddai ehangu'r ysgol yn ateb galw cynyddol ar ochr Orllewinol y Barri, gan gynnwys y Glannau, am addysg cyfrwng Cymraeg. Trwy adeiladu ysgol newydd, sy'n addas ar gyfer ei diben yn yr 21^{ain} Ganrif, byddai gan rieni opsiwn deniadol ar ffurf ysgol sy'n perfformio'n dda mewn amgylchedd sy'n gallu bod yn gynhwysol ac yn ffafriol i ddysgu a thyfu. Byddai hyn yn helpu'r Cyngor i gyrraedd ei darged ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fro. Mae ymatebion yn cefnogi'r cyfle i ragor o blant gael addysg ddwyieithog trwy leoli'r safle arfaethedig mewn ardal yn y Barri a boblogir o'r newydd.

Sylw 5

Gellir cynnal yr ethos ysgol fach os caiff ei reoli'n gywir.

Caiff ethos ysgol ei ddatblygu dros amser gan staff, disgyblion a llywodraethwyr, y byddent i gyd yn trosglwyddo i'r adeilad newydd. Ceir hyder ymhlith staff, llywodraethwyr a swyddogion y Cyngor y byddai'r broses o drosglwyddo ac ehangu Ysgol Sant Baruc yn cael ei rheoli'n dda. Byddai hyn yn cael ei helpu trwy fod â staff yn cynnal ethos gofalgwr yr ysgol a niferoedd y disgyblion yn cynyddu mewn ffordd a reolir dros nifer o flynyddoedd.

Sylw 6

Byddai mwy o fynediad at gyfleusterau cymunedol ar safle newydd arfaethedig yr ysgol o fudd i breswylwyr lleol.

Byddai preswylwyr datblygiad y Glannau ac ardal ehangach y Barri yn cael mwy o fynediad at gyfleusterau cymunedol. Byddai'r cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel mynediad a rhyngweithio ar gyfer y gymuned trwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd. Mae ymatebion yn rhoi anogaeth i drefnu bod y cyfleusterau ar gael ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a Chymraeg i oedolion fel un o bosibiliadau defnydd cymunedol.

Sylw 7

Byddai traffig o amgylch safle presennol Ysgol Sant Baruc yn cael ei leihau a gallai teithio i'r safle newydd fod yn haws na'r hyn a brofir gan rieni ar hyn o bryd.

Byddai symud i'r safle newydd yn lleddfu tagfeydd traffig yn yr ardal adeiledig brysur gerllaw safle presennol Ysgol Sant Baruc. Mae'r strydoedd o amgylch safle presennol Ysgol Sant Baruc yn gwasanaethu ysgol gynradd High Street a phreswylwyr lleol hefyd, gan olygu bod y tagfeydd ar adegau codi a danfon plant yn

arbennig o wael. Byddai'r safle newydd arfaethedig yng nghanol dalgylch Ysgol Sant Baruc, a allai olygu bod mwy o deuluoedd o Lannau'r Barri a'r ardal gyfagos yn gallu cerdded i'r ysgol ar ôl ei hadleoli.

Atodiad C – Cwestiynau cyffredin.

Mae'r adran hon yn darparu fersiwn wedi'i diweddarau o'r cwestiynau cyffredin ynghylch y cynnig.

Beth os wyf yn byw ar Lannau'r Barri ac yn dymuno anfon fy mhlentyn i addysg cyfrwng Saesneg?

Mae'r Cyngor wedi rhagfynegi nifer y disgyblion a fydd yn deillio o'r 900 o dai sydd i fod i gael eu hadeiladu ar ddatblygiad Glannau'r Barri. Byddir yn darparu ar gyfer y disgyblion hyn gan ddefnyddio'r lleoedd gwag presennol mewn ysgolion (gweler tablau 5 a 6). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd diffyg bach o ran lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg erbyn 2022. Gellid ateb y galw hwn trwy ailasesu'r capasiti yn ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf cafwyd gwared ar gapasiti o ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner trwy ailneilltuo ystafelloedd. Roedd gan yr ysgolion leoedd gwag yn flaenorol y gellid trefnu eu bod ar gael i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg. Mae'r ddwy ysgol hon o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri. Wrth i'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg gynyddu, rhagwelir y bydd gostyngiad cyfatebol yn y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae 11 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg ar gael yn yr ardal leol (radiws o 2 filltir) a gellir cael rhagor o wybodaeth yma:

<http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/primary/Pri-mary-School-Admissions.aspx>

Beth os na cheir y galw uwch am addysg cyfrwng Cymraeg?

Mae'r Cyngor yn hyderus bod digon o dystiolaeth i awgrymu y bydd y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i gynyddu, gan adlewyrchu strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd y gofyniad i hyrwyddo addysg ddwyieithog a chreu darpariaeth ychwanegol i gefnogi rhieni a disgyblion sy'n penderfynu pontio i addysg cyfrwng Cymraeg trwy ganolfan drochi neu ddarpariaeth debyg fel a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a natur ragweithiol hyn yn cynyddu'r nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir. Byddai unrhyw leoedd gwag mewn ysgolion yn cael eu rheoli fel y byddent gydag unrhyw un o ysgolion neu asedau eraill y Cyngor.

Beth yw manteision addysg cyfrwng Cymraeg?

Mae plant dwyieithog yn tueddu i gyflawni'n uwch o fewn y cwricwlwm a pherfformio'n well mewn arholiadau. Mae dysgu ail iaith ar oedran cynnar yn helpu plant i ddatblygu clust ar gyfer ieithoedd ac yn rhoi mantais iddynt wrth ddechrau dysgu trydedd neu bedwaredd iaith wrth iddynt fynd yn hŷn. Yng Nghymru mae siarad Cymraeg yn sgil ar gyfer y gweithle, yn enwedig yn y sector cyhoeddus a'r sector gwasanaethau, ac yn sgil newidiadau diweddar i'r gyfraith bydd ar fwy a mwy o gyflogwyr angen gweithlu dwyieithog. Mae dysgu trwy gyfrwng iaith arall yn helpu plant i ddatblygu mwy o sensitifrwydd i ddiwylliannau a chefnidiroedd eraill. Mae siarad Cymraeg yn rhoi perthynas fwy clòs i bobl â hanes, treftadaeth a thraddodiadau Cymru.

Pa gymorth sydd ar gael i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg?

Nid yw'r mwyafrif llethol o rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Fro yn siarad Cymraeg eu hunain. Dyna pam fod ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg wastad yn cyfathrebu gyda rhieni yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ym mron pob achos bydd gwaith cartref yn cynnwys eglurhad Saesneg fel bod yr holl rieni'n gallu helpu eu plant gyda'r gwaith. Hefyd, mae nifer o gylchoedd chwarae

cyn-ysgol yn y Fro sy'n cael eu rhedeg gan y sefydliad Mudiad Meithrin. Caiff addysg Gymraeg i oedolion ei hyrwyddo ledled Bro Morgannwg hefyd gydag ystod o gyrsiau ar gael ar bob lefel o lefel dechreuwyr i lefel hyfedredd. Ceir rhagor o wybodaeth o'r llyfryn ar fod yn ddwyieithog:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Working/Education%20and%20Skills/Admissions-Guide/Being-Bilingual-booklet-Welsh.pdf>

Beth yw graddfa amser fwriadedig y datblygiad?

Bwriedir i'r gwaith adeiladu ddechrau ar safle newydd yr ysgol erbyn mis Ionawr 2020 a chael ei gwblhau erbyn mis Medi 2021.

Pryd fyddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol?

Y cynnig yw y byddai'r ysgol newydd yn agor erbyn mis Medi 2021.

A fydd pennaeth newydd?

Byddai'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad trosglwyddo'n trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i'w telerau ac amodau cyflogaeth.

Sut fyddai goblygiadau posibl o ran trafndiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?

Byddai Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r Consortiwm a'r contractwr sy'n gyfrifol am adeiladu'r ysgol newydd. Byddai asesiad trafndiaeth llawn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai unrhyw oblygiadau a nodir yn cael eu hystyried wrth ddylunio'r adeilad newydd. Byddai'r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

Ble fyddai adeilad newydd yr ysgol yn cael ei leoli?

Byddai'r ysgol newydd yn cael ei lleoli'n agos at ddatblygiad Glannau'r Barri. Mae'r map isod yn dangos union leoliad adeilad newydd arfaethedig yr ysgol. Sylwer mai dim ond cynllun safle cynrychiolaidd ac nid dyluniad ar gyfer yr ysgol newydd yw hwn.



Map 2 – Safle arfaethedig ar gyfer ehangu Ysgol Sant Baruc yn agos at ddatblygiad Glannau'r Barri

Sut fyddai'r broses o symud adnoddau i mewn i adeilad newydd yr ysgol yn cael ei rheoli?

Tîm Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif y Cyngor fyddai'n rheoli'r broses o symud adnoddau i mewn i'r adeilad newydd. Mae prosiectau blaenorol wedi defnyddio diwrnodau HMS y naill ochr a'r llall i benwythnos neu wyliau ysgol i roi digon o amser i staff sefydlu'r amgylchedd yn barod ar gyfer dysgu ac addysgu.

A fyddai'r ddarpariaeth Feithrin yn cael ei hintegreiddio yn yr adeilad newydd?

Byddai'r ddarpariaeth feithrin yn cael ei hintegreiddio'n llawn fel rhan o ddyluniad adeilad newydd yr ysgol i sicrhau parhad a dilyniant yn nysgu'r plant o dair oed. Byddai hyn yn sicrhau bod dull cyson o gynllunio a darparu'r Cyfnod Sylfaen (o'r dosbarth meithrin i flwyddyn dau).

Atodiad D – Ymgynghori a fu gyda phobl ifanc.

Ymgynghoriad gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Sant Baruc ar ran Cyngor Bro Morgannwg ynghylch y cynnig i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.

Cefndir a Nod

- Yn y ddogfen ymgynghori ar y cynnig uchod mae Cyngor Bro Morgannwg yn nodi pwysigrwydd gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol. 'Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Sant Baruc gael y cyfle i wneud eu barn ynglŷn â'r cynnig hwn yn hysbys'.
- Trefnwyd gweithdy ymgynghori gyda'r cyngor ysgol yn Ysgol Sant Baruc i gasglu eu barn ynglŷn â'r cynnig.
- Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y sesiwn hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i gael ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Methodoleg

- Gweithdy rhyngweithiol a roddodd gyfle i'r disgyblion gyd-drafod a rhannu syniadau ymysg eu gilydd.
- Trafodwyd yn gyntaf beth yw ystyr ymgynghoriad a pham fod siarad gyda disgyblion yn bwysig
- Cytunwyd ar beth sy'n gwneud trafodaeth dda/ymgynghoriad da
- Aethpwyd ymlaen i esbonio'r ddogfen ymgynghori wrthynt, gan cynnwys y cefndir ac amserlen y gweithgarwch.
- Rhannwyd y disgyblion yn 2 grŵp i rannu a nodi eu syniadau hwy eu hunain. Yna daethpwyd â'r ddau grŵp ynghyd i drafod y syniadau hyn ymhellach, yn seiliedig ar y rheolau ymgysylltu y cytunwyd arnynt ar ddechrau'r sesiwn.
- Yn dilyn yr adborth, rhoddwyd gwybodaeth i'r disgyblion am y manteision a'r diffygion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, cawsant eu hatgoffa o'r amserlen ac eglurwyd wrthynt y byddai eu sylwadau'n cael eu bwydo i mewn i adroddiad ar y sesiwn ac y byddai'r adroddiad hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r dystiolaeth a gasglwyd ar yr ymgynghoriad.

Ymatebion y disgyblion (11 disgybl B13-6, cynrychiolwyr y Cyngor Ysgol)

Beth sy'n gwneud trafodaeth dda?

- Rhoi eich barn eich hun
- Siarad un ar y tro
- Bod â barn gref

- Gwrando ar eich gilydd
- Mae gennych hawl i anghytuno
- Codi eich llaw pan fyddwch am siarad
- Pawb i gael cyfle i fynegi eu barn
- Cydweithio

Manteision y cynllun arfaethedig

- Bydd mwy o bobl yn dysgu Cymraeg
- Bydd yn creu mwy o siaradwyr Cymraeg
- Bydd mwy o le e.e. mwy o ystafelloedd cotiau
- Mwy o le i ddysgu a chwarae
- Bydd cyfle gwell i'r bobl lawr ar y Glannau fynd i ysgol Gymraeg
- Bydd ar fwy o bobl eisiau dod i'r ysgol
- Bydd yn creu mwy o swyddi ac felly bydd mwy o athrawon
- Ardaloedd chwarae gwell
- Ein ffreutur ein hunain yn hytrach na gorfod mynd draw i High St.
- Ystafelloedd dosbarth mwy a mwy o ystafelloedd dosbarth sy'n addas i bobl anabl
- Mwy o adnoddau
- Y cyfle i wneud mwy o ffrindiau
- Gwell cyfleusterau
- Mwy o gyfleoedd i fwynhau
- Mwy o brofiadau

Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig

- Bydd y bobl sy'n byw ar y Glannau yn dod i'r ysgol yn gyflym ond beth am y bobl sy'n byw yn y dref?
- Mae mwy o siawns o fynd ar goll
- Gormod o sŵn
- Rydym wastad wedi bod yn deulu bach ond rydym yn symud i ysgol mwy ac felly rydym yn poeni y byddwn yn colli'r berthynas glòs sydd gennym â'n gilydd
- Problemau traffig

Sylwadau cyffredinol

Roedd pwysigrwydd cadw'r ethos teuluol (sy'n gryfder mawr yn yr ysgol bresennol) yn yr ysgol newydd yn amlwg yn eu hymatebion.

Fodd bynnag roedd cyffro mawr ymhlith y disgyblion i gyd ac roeddent yn gadarnhaol o blaid y datblygiad.

Yr her, felly, yw sicrhau bod unrhyw ddiffygion a nodwyd yn cael sylw dyledus i sicrhau nad yw holl gryfderau presennol Sant Baruc yn cael eu colli.

17.i.19

gj

Atodiad E – Ymateb gan Estyn

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, anfonwch copi o'r ddogfen ymgynghori at Estyn.

Ymateb Estyn i'r cynnig i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd mewn adeilad newydd ar Lannau'r Barri o fis Medi 2021

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion yn y cynnig.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Bro Morgannwg i ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd mewn adeilad newydd ar Lannau'r Barri o fis Medi 2021.

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sy'n esbonio'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig hwn. Mae'r duedd gynyddol i ddewis darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal y Barri yn peri anawsterau gan nad oes digon o leoedd i dderbyn mwy o ddisgyblion i ysgolion Cymraeg. Hefyd, nid yw adeilad na thir presennol Ysgol Sant Baruc yn addas nac yn caniatáu'r lle angenrheidiol i ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Yn dilyn cynnydd sylweddol yn yr anheddau sy'n cael eu hadeiladu yn ardal Glannau'r Barri, mae'r cynnig hwn yn ymgorffori adeilad newydd ac addas ar gyfer Ysgol Sant Baruc er mwyn diwallu'r angen am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.

Yn dilyn amlinelliad o'r ystyriaethau o blaid ac yn erbyn gweithredu'r cynnig hwn, mae'r manteision yn creu tuedd ffafriol o blaid gweithredu'r cais a symud Ysgol Sant Baruc o'i safle presennol i safle newydd gan ehangu'r ddarpariaeth o 210 i 420 o leoedd ar safle Glannau'r Barri erbyn mis Medi 2021.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal neu wella'r safonau presennol, o ran yr addysg, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a manteision

Mae'r rhesymeg dros y cynnig hwn yn gydlynus, ac mae ystyriaethau dilys wedi cael eu nodi'n glir mewn dogfennaeth gynhwysfawr.

Mae'r cynigiwr wedi nodi'r manteision a'r anfanteision disgwylidig o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Maent wedi ystyried goblygiadau'r cynnig o fewn eu gweledigaeth i gyflawni'r amcan 'Bro Uchelgeisiol', sef codi safonau cyflawniad ar y cyfan trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau addysg o'r radd flaenaf. Hefyd, maent wedi ystyried adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. O ganlyniad, mae'r ystyriaethau yn cynnwys effaith y cynnig ar y gymuned leol, er enghraifft plant sy'n byw yn y dalgyllch lleol sydd yn mynychu'r ysgol leol ynghyd â chyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau a gynhelir ar safle'r ysgol. Caiff y manteision a'r anfanteision eu nodi'n glir a thryloyw mewn dogfen grynodol, sef 'Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned'.

Trwy roi sgôr penodol i'r ystyriaethau hyn, ar y cyfan daw'n amlwg y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol. Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau â'i llwyddiant o ran cynnig addysg cyfrwng Cymraeg i fwy o ddisgyblion. Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny'n fwy aml drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol.

Trwy weithredu'r cais hwn, byddai anghenion yr ysgol a'r gymuned yn cael eu diwallu ar yr un pryd.

Trwy graffu ar y ddogfen Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, mae'r cynigiwr yn dod i'r casgliad y bydd nifer y lleoedd yn Ysgol Sant Baruc yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well ac yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad o leoedd a'r galw amdanynt.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r cynigiwr yn awgrymu na fyddai llawer o newid ar gyfer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Baruc ar hyn o bryd. Bydd eu llais hwy'n cael ei glywed a byddir yn gweithredu arno fel rhan o'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau eu hymrwymiad i'r ysgol wrth symud safle.

Mae'r cynigiwr wedi dadansoddi adroddiad Estyn ar Ysgol Sant Baruc (Mai 2018) yn fanwl ac mae wedi nodi'n glir beth yw'r cryfderau a'r meysydd i weithredu arnynt. Un o'r cryfderau hyn yw maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' lle dderbyniodd yr ysgol y farn 'Rhagorol'. Dengys hyn fod safonau ac ansawdd lles yr ysgol yn gynaliadwy dros amser ac, o ganlyniad, mae'r cynigiwr yn honni y caiff hyn ei gynnal yn effeithiol yn ystod y broses o symud safle.

Mae'r cynigiwr yn nodi nad oes gan Ysgol Sant Baruc fynediad at ei chyfleusterau ffreutur ei hun oherwydd cyfyngiadau'r safle. Caiff disgyblion eu hebrwng i Ysgol Gynradd High Street drws nesaf yn ystod amser cinio. Nodwyd hyn gan Estyn yn yr arolygiad diweddar, pan fynegwyd nad yw'r disgyblion yn gallu gwneud y gorau o'u hegwyll cinio. Ysgol Sant Baruc yw'r unig ysgol ym Mro Morgannwg heb ei chyfleusterau ffreutur ei hun.

Trwy dderbyn a gweithredu'r cynnig hwn, byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad modern o ansawdd da a fyddai'n gallu bod o gymorth i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Awgrymir y byddai'n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol a fyddai'n gallu addasu i newidiadau, gan herio a chefnogi disgyblion ar yr un pryd er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial. Yn gyffredinol, mae'r cynigiwr yn mynegi y byddai safonau a chynnydd pob disgybl, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn i grwpiau penodol, er enghraifft disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwella ac yn cael effaith gadarnhaol dros amser.

Mae'r cynigiwr yn nodi y byddai holl staff presennol yr ysgol yn trosglwyddo i'r adeilad newydd ym Medi 2021 heb unrhyw effeithiau anffafriol. Ni fyddai goblygiadau allanol yn effeithio ar y sefyllfa hon. Byddai angen i'r pennaeth a'r corff llywodraethu gynyddu nifer y staff wrth i'r ysgol dyfu i'w llawn gapasiti dros gyfnod.

Ni chynigir unrhyw newidiadau i ddalgylch Ysgol Sant Baruc o ganlyniad i'r cynnig hwn. Mae'r cynigiwr yn awgrymu na fyddai unrhyw newid i'r ffordd y mae'r disgyblion yn teithio i'r ysgol ac felly na fyddai unrhyw oblygiadau pellach o ran costau teithio. Bydd yr ysgol newydd ar safle sydd tua milltir o safle presennol yr ysgol.

Ers 1998, gwelwyd gostyngiad o 5.8% yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg a chynnydd o 6.7% yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal y Barri. Awgrymir bod y cynnig yn cydymffurfio'n llwyr â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor ar gyfer 2017-2020, ac yn cynnig mynediad parhaus at addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn y Barri. Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol newydd o leiaf cystal â'r ddarpariaeth bresennol os nad gwell na hi ac y byddai'n diwallu'r angen am addysg cyfrwng Cymraeg yn y rhan hon o'r dref.

Er mwyn sicrhau perthynas effeithlon rhwng y cyflenwad o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Barri a'r galw am y lleoedd hynny, bydd angen capasiti ychwanegol yn ne orllewin y Barri. O ganlyniad, mae'r cynnig hwn yn diwallu'r angen am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dalgylch lleol.

Yn dilyn arolygiad diweddar o safle presennol Ysgol Sant Baruc, barnwyd fod cyflwr presennol adeilad yr ysgol yn 'wael' a bod addasrwydd adeilad yr ysgol yn 'foddhaol'. Byddai cost addasu safle presennol yr ysgol yn £80,800 o leiaf. O ganlyniad, mae'r cynigiwr yn awgrymu y byddai symud yr ysgol bresennol i adeilad addas yn sicrhau gwell defnydd o arian. Byddai'r adeilad newydd yn cyrraedd safon 'Rhagorol' o ran dilysiad ansawdd Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Amcangyfrifir mai £7.417 miliwn fyddai cyfanswm y cyllid cyfalaf a fyddai'n ofynnol er mwyn adeiladu'r ysgol newydd, gan gynnwys gosod cyfleustodau a darpariaeth priffyrdd.

Dengys adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018 fod Ysgol Sant Baruc wedi cael pedair gradd 'Da' ac un radd 'Rhagorol' yn y pum maes arolygu. 'Melyn' yw categori lliw'r ysgol a dyfarnwyd gradd 'B' iddi am ei gallu i wella. O ganlyniad, mae'r ysgol yn perfformio'n dda dros amser.

Atodiad F – Cofnodion y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant sy'n ymwneud â'r cynnig

Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Detholiad o Gofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2019.

739 CYNIGION I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD CYNRADD CYFRWNG CYMRAEG YN Y BARRI (CYF) –

Yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018, roedd y Cyngor wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu fel rhan o'r broses ymgynghori. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar gynnis i symud Ysgol Sant Baruc o'i lleoliad presennol ar St Paul's Avenue yn y Barri i adeilad ysgol newydd â 420 o leoedd gyda 96 o leoedd meithrin rhan-amser a fydd yn cael ei adeiladu ar ddatblygiad Glannau'r Barri.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau sylw at baragraff 35 sy'n hysbysu bod gostyngiad o 5.8% wedi bod yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg a chynnydd o 6.7% wedi bod yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal y Barri ers 1998.

Cyhoeddwyd Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr ym mis Gorffennaf 2017, ac roedd yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Roedd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o'r tair thema allweddol, a byddai'r newidiadau trawsffurfiol canlynol yn ofynnol o fewn y sector addysg er mwyn gwireddu'r weledigaeth:

- Cynyddu'r gyfradd ym mhob grŵp oedran mewn ysgolion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith mlwydd oed yn 2015/10) i 30% (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40% (tua 14,000) erbyn 2050;
- Trawsnewid sut yr oedd y Cyngor yn addysgu Cymraeg i'r holl ddysgwyr er mwyn cyrraedd sefyllfa yn 2050 lle byddai o leiaf 70% o'r dysgwyr hynny'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn eu bod yn gadael yr ysgol;
- Cynyddu nifer yr athrawon cynradd a allai addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 a 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd a allai addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 a 1,200 erbyn 2050; a chynnyddu nifer yr athrawon uwchradd a allai addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 a 4,200 erbyn 2050.

Nodwyd y byddai tua 1,700 o anheddau'n cael eu hadeiladu erbyn 2022. Roedd cyfanswm o 756 o unedau wedi cael eu hadeiladu ac yn cael eu hanheddu hyd yma gyda'r plant wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal. Ar hyn o bryd roedd plant o Ddatblygiad Glannau'r Barri yn mynychu Ysgolion Cynradd High Street a Holton ar gyfer darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg, Ysgol Sant Baruc ar

gyfer darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Cynradd yr Holl Saint a Sain Helen ar gyfer addysg enwadol.

Gan roi sylw i baragraff 74 o'r adroddiad, cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaeth at wall teipio yn yr ystyr bod yr adroddiad yn amcangyfrif mai £1.43m fyddai cost referniw gweithredu ysgol newydd â 420 o leoedd. £1.33m ddylai'r ffigwr hwn fod wedi bod. Nodwyd y byddai'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb referniw ar gyfer Ysgol Sant Baruc, sef £760m, a'r £1.33m yn cael ei ganfod o'r gyllideb ysgolion unigol â referniw ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion o'r datblygiadau tai newydd.

Cafodd y Rheolwr Prosiectau ar gyfer Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Mr Matthew Curtis, eri gyflwyno i'r Pwyllgor ac wrth gyfeirio at Atodiad A, yr amserlen arfaethedig ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn y Barri, hysbysodd y byddai'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 22 Chwefror 2019 a'i fod wedi cael ei gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Hyd yma roedd hefyd wedi cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac roedd nifer dda o ymatebion wedi dod i law. I gynorthwyo gyda'r broses ymgynghori roedd nifer o sesiynau cyhoeddus wedi cael eu cynnal (tuag 20) gyda sylwadau'n cael eu cyflwyno, er enghraifft ynghylch cyllid, a goblygiadau o ran teithio a chyflogi staff. Hysbysodd y Rheolwr Prosiectau fod canran fawr o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy o blaid y cynigion, gydag ymatebion cadarnhaol yn dod i law.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd i'r siaradwr cyntaf, Mr G. Griffiths, gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor.

Dywedodd Mr Griffiths ei fod yn Llywodraethwr ar ran yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Sant Curig ac Ysgol Gwaun y Nant, ond ei fod yn annerch y Pwyllgor mewn cymhwyster personol. Dywedodd Mr Griffiths y byddai'n gwneud sylwadau personol yn seiliedig ar ymchwil yr oedd ef wedi'i chyflawni ac ar wrando ar gyd-lywodraethwyr mewn cyfarfodydd diweddar. Dywedodd ei fod yn siŵr y byddai sylwadau ffurfiol yn cael eu gwneud maes o law gan bob Corff Llywodraethu ynghylch y cynnig. Dywedodd Mr Griffiths ei fod yn gyn-athro cymwysedig dwyieithog a chan hynny ei fod yn gwybod am yr heriau yr oedd ysgolion dwyieithog yn eu hwynebu mewn rhannau o Gymry sy'n ardaloedd Saesneg yn bennaf.

Dywedodd Mr Griffiths mai casgliad o bentrefi trefol oedd trefi a dinasoedd, a bod pob un yn wahanol a bod ar bob un angen cyfleusterau gwahanol i'w helpu i oroesi a thyfu.

Roedd yn ymddangos bod dau fater i'w hystyried yn ei dyb ef:

Niferoedd sy'n cael eu denu i bob ysgol. Sant Baruc 234 / Sant Curig 425 / Gwaun y Nant 252

“Mae ysgolion newydd yn denu disgyblion newydd. Bydd Ysgol Sant Baruc yn symud i ardal y Glannau felly dim problem gyda hynny – ond a allai Sant Curig a Gwaun y Nant brofi gostyngiad sylweddol yn eu niferoedd ar adeg pan fo cod ADY / Cwricwlwm newydd ar gychwyn ac allai hyn olygu bod staff yn dymuno symud i ysgol newydd?

Mae ysgolion yn ceisio hyrwyddo eu hunain ac mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn allweddol yn hyn o beth. Os ydych yn chwilio am bob ysgol ar Google ceir hyd at naw gwefan wahanol lle gall Rhieni / Gwarcheidwaid gael gwybodaeth. Pwy sy'n gyfrifol am y gwefannau hynny – am eu diweddarau a / neu drosglwyddo gwybodaeth berthnasol i wefannau nad ydynt yn perthyn i'r Ysgol na Bro Morgannwg?"

Wedyn cafodd Mr M. Bowen, yr ail aelod o'r cyhoedd a oedd wedi cofrestru i siarad, ei wahodd gan y Cadeirydd i gyflwyno ei sylwadau.

Eglurodd Mr Bowen ei fod yn rhiant i blentyn yn Ysgol Sant Baruc, ond nad oedd yn un o lywodraethwyr yr ysgol. Roedd hefyd yn rhan o un o'r fforymau ar gyfer rhieni yn natblygiad y Glannau ac roedd hefyd yn dymuno cyfleu safbwynt cangen leol RhaG a'i chefnogaeth i'r cynigion gerbron y Pwyllgor. Roedd hefyd yn hyderus wrth edrych tua'r dyfodol, gan fod yn ymwybodol bod nifer o rieni'n cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a dywedodd y byddai'r cynnig o gymorth i gyrraedd y targed i gyflawni cynnydd o draean mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Pe byddid yn bwrw ymlaen â'r cynnig, dywedodd y byddai cynnydd o 17% ar gyfer y Barri a 10% ar gyfer Bro Morgannwg. Cyfeiriodd Mr Bowen hefyd at y diffyg cyfleusterau arlwyio yn Ysgol Sant Baruc a dywedodd y byddai cyflwyno'r cyfleusterau hyn o faintais fawr i'r ysgol.

O ran paragraff 49 o'r adroddiad, hysbysodd fod yr ysgol yn llawn ar gyfer y flwyddyn derbyn ac, yn ei farn ef, bod cymaint o alw fel mai dim ond tyfu fyddai'r ystadegyn hwn.

Dywedodd y Cynghorydd S. Wiliam, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor ond a oedd wedi cael caniatâd i siarad, ei fod yn Aelod lleol ac fe gyfeiriodd at ddwy o brif fanteision y cynigion, sef y mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol a'r manteision cymunedol. Dywedodd fod y gefnogaeth yn yr ardal yn helaeth a bod pawb yr oedd ef wedi siarad gyda nhw yn hapus gyda'r cynigion. Dywedodd fod ysgol Saesneg ragorol ar yr Ynys hefyd ac y byddai'r cynigion yn diogelu'r Fro at y dyfodol o ran hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach ledled y sir.

Dywedodd y Cynghorydd Ddr. I. Johnson, nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor ond a oedd wedi cael caniatâd i siarad, ei fod yn Llywodraethwr ar ran yr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Gladstone. Achubodd ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am gynnal y cyfarfodydd ar gyfer Aelodau Wardiau Lleol yr wythnos flaenorol a dywedodd ei fod yn hyderu y byddai hyn yn parhau gan gynnwys yn ystod y broses gynllunio. Roedd yn ymwybodol trwy'r ymgynghoriad bod 90% wedi ymateb o blaid y cynigion ac roedd hyn yn rhywbeth a oedd i'w groesawu'n fawr iawn yn ei dyb ef. Fel Aelod lleol roedd yn ymwybodol o gyfyngiadau'r safle presennol, y diffyg cyfleusterau parcio ac nad oedd yn sefyllfa dda i staff, disgyblion, rhieni na phreswylwyr.

Dywedodd Mr Gapper, y Cynrychiolydd Addysg Cyfrwng Cymraeg ar y Pwyllgor Craffu, ei fod ef, ac yntau'n cynrychioli'r sector cyfrwng Cymraeg, yn meddwl bod yr achos o blaid ehangu ac adleoli wedi cael ei gyfleu'n dda gan y siaradwyr blaenorol a bod yr adroddiad, yn ei farn ef, wedi darparu rhesymeg ardderchog dros y cynnig a diolchodd hefyd i'r swyddogion am yr wybodaeth a ddarparwyd. Roedd Mr Gapper hefyd o'r farn bod lefel uchel o gefnogaeth i'r cynnig ac achubodd ar y cyfle i gyfeirio at ddau bwynt penodol. Ac yntau'n ymwybodol o'r mater sy'n datblygu mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg, roedd o'r farn bod cyfradd y cynnydd

yn debygol o gynyddu ymhellach yn y dyfodol a bod polisi 2050 yn golygu y byddai hyn yn arwain at fwy o alw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Yn ail, er bod angen ymateb i'r galw, dywedodd nad gêm rhifau oedd hyn o gwbl, gan bod y manteision yn amlwg ac roedd o'r farn y byddai'r cynnig ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn cyflawni'r manteision hyn.

Ar ôl clywed y siaradwyr, cyfeiriodd y Cadeirydd at y sylwadau a'r adroddiad yr oedd gofyn i'r Pwyllgor Craffu eu hystyried.

Roedd nifer o'r Aelodau o'r farn ei bod yn ymddangos fel pe bai llawer o feddwl wedi mynd i mewn i'r cynigion a bod y dadleuon gan y siaradwyr a oedd wedi cyfrannu'n dangos yn glir beth yw'r ffordd ymlaen. Gofynnodd Aelod hefyd a oedd data daearyddol ar gael ynghylch dosbarthiad yr ymatebion ac fe'i hysbyswyd nad oedd data daearyddol penodol ar gael, ond bod modd dadansoddi'r wybodaeth yn ôl y math o ymatebydd, h.y. rhiant, preswlydd lleol a.y.b. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i sicrhau'r parhad rhwng addysg bellach ac erfyniwyd ar swyddogion i ystyried materion o'r fath.

Mewn ymateb i ymholiad a oedd yn gofyn sut y penderfynwyd ar y cynnig yn y lle cyntaf, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod nifer o drafodaethau hanesyddol wedi cael eu cynnal. Cyfeiriodd hefyd at yr amodau yn yr ysgolion, yn arbennig y ffaith nad oedd cegin gan Sant Baruc a bod amser staff yn cael ei ddefnyddio i hebrwng plant yn ôl ac ymlaen rhwng y ddau safle. Fe wnaed y pwynt hefyd mewn perthynas â'r angen i sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chefnogi a'r rhesymeg dros gynnig dewis. Roedd capasiti presennol yn Ysgolion High Street ac Ynys y Barri yn barod ac wrth gyfeirio at addysg bellach hysbysodd fod cyfleoedd i gefnogi teuluoedd yn y cymunedau'n un o'r sbardunau i hyrwyddo'r cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges, Is-Gadeirydd y Pwyllgor, nad oedd wedi clywed unrhyw beth ond canmoliaeth a chyffro gan y bobl ar y Glannau ynglŷn â'r cynigion a'i fod hefyd yn ymwybodol bod sefydliadau yn y gymuned hefyd yn awyddus i ddefnyddio'r cyfleusterau yn yr ysgol.

Dywedodd Cynrychiolydd y Fforwm Ieuenctid bod y cynnig, yn ei farn ef, yn gyfle rhyfeddol a'i fod ef, trwy gydol ei flynyddoedd yn yr ysgol, wedi gweld y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn newid a gofynnodd a oedd holl Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â'r cynnig er mwyn iddo allu hysbysu'r Aelod o Senedd Ieuenctid newydd Cymru a oedd yn mynychu Ysgol Bro Morgannwg.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi hefyd yn gefnogol iawn i'r camau a oedd wedi cael eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg a rhoi anogaeth i'w defnyddio ond roedd yn amau rhai o'r ffigyrau a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a dywedodd nad oedd defnyddio canrannau yn golygu ein bod yn cymharu dau beth tebyg yn ei thyb hi. Fe wnaeth hefyd gwestiynu'r wybodaeth mewn perthynas â lleoedd gwag, gan ddweud bod angen i'r adroddiad fod yn fanwl gywir er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor wneud penderfyniadau gwybodus. Fe wnaeth hefyd achub ar y cyfle i ofyn i'r Pwyllgor ystyried cyflwyno argymhelliad i'r Cabinet bod adolygiad strategol yn cael ei gynnal o'r holl ysgolion yn y Fro gan ei bod hi o'r farn bod nifer o ysgolion ag adeiladau o Oes Fictoria yr oedd angen eu hadnewyddu ac na ddylid anwybyddu'r rhain. Ei phrif ffocws hi oedd sicrhau darpariaeth deg ar draws y sector cynradd.

Er eu bod yn cyd-fynd â sylwadau'r Cadeirydd, roedd Aelodau o'r farn y gallai adroddiad pellach gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu dan ei raglen waith mewn perthynas ag adolygu adeiladau ysgolion.

Ac yntau wedi cael caniatâd i siarad, achubodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i sicrhau'r Pwyllgor ei fod, yn ystod y broses o baratoi'r cynigion, wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau nad oedd darpariaeth Gymraeg yn cael ei chyflwyno ar draul darpariaeth Saesneg.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn

ARGYMHELLWYD –

(1) Y DYLLID hysbysu'r Cabinet fod y Pwyllgor Craffu wedi penderfynu'n unfrydol ei fod yn cefnogi'r cynnig sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad i gynyddu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg yn y Barri.

(2) Y DYLLID cyflwyno adroddiad pellach ar adroddiadau ysgolion yn y sector cynradd i'r Pwyllgor Craffu dan ei raglen waith.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ar ôl ystyried yr adroddiad ac yng ngoleuni'r gefnogaeth aruthrol i'r cynnig.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried darpariaeth gynradd o ran adeiladau ysgolion a'u ffabrig.

Atodiad G – Ymateb y Cyngor i Arolwg Cymdeithas Preswylwyr Glannau'r Barri



Cynnig i Gynyddu Nifer y Lleoedd Cynradd Cyfrwng Cymraeg yn y Barri

Taflen Wybodaeth i Gymdeithas Preswylwyr Glannau'r Barri

Y cynnig

Beth mae'r Cyngor yn ei gynnig?

Mae'r Cyngor yn cynnig bod lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn cael eu darparu trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd. Oherwydd cyfyngiadau'r safle presennol, byddai Ysgol Sant Baruc yn cael ei symud i'r ysgol newydd ar Lannau'r Barri o fis Medi 2021. Byddai'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â chyflwr gwael adeilad presennol yr ysgol a'r diffyg cyfleusterau. Byddai'r ysgol newydd o fewn 1 filltir i'r safle presennol. Ni fyddai unrhyw newid i'r staff a disgyblion presennol gan y byddent i gyd yn trosglwyddo i'r adeilad newydd wedi iddo gael ei gwblhau.

A fydd darpariaeth feithrin?

Mae Ysgol Sant Baruc yn cynnig 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar hyn o bryd. O ganlyniad i ehangu'r ysgol, byddai hyn yn cynyddu i 96 o leoedd meithrin rhan-amser.

Y Gymraeg

Pam mai ysgol cyfrwng Cymraeg yw'r ysgol newydd arfaethedig?

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi arwain at gynydd mewn dysgwyr dwyieithog ac mae'n amcanu at barhau â'r duedd hon i sicrhau bod capasiti digonol dros y tymor hir. Mae Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), sydd wedi'i fwriadu i sicrhau y gellir ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir yn unol â strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at ei tharged uchelgeisiol i greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn dod yn fwyfwy poblogaidd a bu twf sylweddol ynddi dros y 18 mlynedd ddiwethaf ers agor Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae hyn wedi bod yn amlwg yn y prosiect 'Trawsnewid Addysg Uwchradd yn y Barri' yn ddiweddar sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Saesneg sydd ar gael yn y Barri o 2754 i 2200 a chynnydd yn nifer y lleoedd uwchradd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o 1151 i 1450.

Ysgol Gymraeg yn Llanilltud Fawr a agorodd ym mis Medi 2011 yw Ysgol Dewi Sant. Yn y flwyddyn gyntaf wedi iddi agor, dim ond 3 disgybl a dderbyniwyd i'r dosbarth derbyn. 7 mlynedd yn unig yn ddiweddarach, roedd gorallw o ran derbyn disgyblion ym mis Medi 2018 gyda 32 o ymgeiswyr am 30 o leoedd.

Mae adeilad presennol Ysgol Sant Baruc mewn cyflwr gwael. Nid yw'r adeilad presennol yn cyrraedd safonau'r 21^{ain} ganrif. Ysgol Sant Baruc hefyd yw'r unig ysgol ym Mro Morgannwg heb ei chyfleusterau cegin ei hun. Ar hyn o bryd caiff

disgyblion eu hebrwng i Ysgol Gynradd High Street drws nesaf ar gyfer prydau ysgol.

Y dalgylch

A fydd preswylwyr lleol yn cael blaenoriaeth ar gyfer lleoedd yn yr ysgol newydd?

Ni fyddai dalgylch Ysgol Sant Baruc yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Os ceir mwy o geisiadau am lleoedd mewn ysgol nag sydd o lleoedd ar gael, defnyddir y meini prawf goralw. Mae'r meini prawf goralw ar gyfer addysg gynradd fel a ganlyn.

Bydd plant â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, pan fo'r ysgol wedi'i henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf goralw.

1. Plant y darparwyd tystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol, yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.
2. Plant sy'n preswyllo'n barhaol o fewn dalgylch dynodedig yr ysgol ar hyn o bryd, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni mynegi dewis. Os bydd goralw o blith y categori hwn yn unig, bydd yr ALI yn neilltuo lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol er mwyn pennu trefn ar gyfer dewis. Bydd y cyfeiriad a ddarperir yn cael ei wirio yn erbyn y Dreth Gyngor a ffynonellau eraill.
 - (a) Plant y mae'r Cyngor yn barnu bod rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol gynradd benodedig h.y. y plant hynny yr argymhellir y dylid cynnig lle iddynt am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol. Mae'n rhaid i dystiolaeth gan unigolyn proffesiynol priodol (ymgynghorydd meddygol, gweithiwr cymdeithasol ac ati) gael ei darparu ar gyfer y tîm mynediad i ysgolion fan bellaf erbyn y dyddiad cau i fod yn gymwys dan y maen prawf hwn.
 - (b) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol yn ystod y flwyddyn academiaidd pan fyddai'r plentyn yn cael ei dderbyn. Bydd y cyngor yn pennu'r flaenoriaeth a roddir ac yn neilltuo lleoedd trwy gyfeirio at oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r ieuengaf.
 - (c) Plant sy'n byw bellaf o ysgol arall sydd â lle fel a fesurwyd gan System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) y cyngor. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw bellaf o ysgol arall.

Ni fyddai disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch yn cael eu hystyried dan yr amgylchiadau hyn.

3. Plant nad ydynt yn preswyllo'n barhaol o fewn dalgylch dynodedig yr ysgol ar hyn o bryd, y mae eu rhieni wedi bodloni'r Cyngor (trwy ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig briodol fel cytundeb rhent neu gadarnhad eu bod wedi prynu tŷ), ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni mynegi dewis, y bydd y plentyn yn byw yn y dalgylch erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Mae'n rhaid darparu tystiolaeth y bydd y plentyn yn preswyllo'n barhaol o fewn y dalgylch gyda'r ffurflen gais. Os bydd goralw o blith y categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn neilltuo lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol er mwyn pennu trefn ar gyfer dewis.

- (a) Plant y mae'r Cyngor yn barnu bod rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol gynradd benodedig h.y. y plant hynny yr argymhellir y dylid cynnig lle iddynt am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol. Mae'n rhaid i dystiolaeth gan unigolyn proffesiynol priodol (ymgyngorydd meddygol, gweithiwr cymdeithasol ac ati) gael ei darparu ar gyfer y tîm mynediad i ysgolion fan bellaf erbyn y dyddiad cau i fod yn gymwys dan y maen prawf hwn.
- (b) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd pan fyddai'r plentyn yn cael ei dderbyn. Bydd y cyngor yn pennu'r flaenoriaeth a roddir ac yn neilltuo lleoedd trwy gyfeirio at oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r ieuengaf.
- (c) Plant sy'n byw bellaf o ysgol arall sydd â lle fel a fesurwyd gan System Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS) y cyngor. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw bellaf o ysgol arall.

4. Plant y mae'r Cyngor yn barnu bod rhesymau meddygol neu gymdeithasol cymhellol dros eu derbyn i ysgol gynradd benodedig h.y. y plant hynny yr argymhellir y dylid cynnig lle iddynt am resymau meddygol, seicolegol neu gymdeithasol. Mae'n rhaid i dystiolaeth gan unigolyn proffesiynol priodol (ymgyngorydd meddygol, gweithiwr cymdeithasol ac ati) gael ei darparu ar gyfer y tîm mynediad i ysgolion fan bellaf erbyn y dyddiad cau i fod yn gymwys dan y maen prawf hwn. Os bydd goralw o blith y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (5) a (6), yn y drefn flaenoriaeth honno, yn cael eu gweithredu er mwyn pennu trefn ar gyfer dewis.

5. Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd pan fyddai'r plentyn yn cael ei dderbyn. Os bydd goralw o blith y categori hwn yn unig, bydd y cyngor yn pennu'r flaenoriaeth a roddir ac yn neilltuo lleoedd trwy gyfeirio at oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r ieuengaf.

6. Wrth benderfynu ar geisiadau derbyn ar gyfer disgyblion eraill yn y grŵp oedran, bydd y Cyngor yn rhoi sylw penodol i ba mor agos yw cartref y disgyblion at yr ysgol, fel a fesurwyd yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; a rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf. Mae'r cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS) er mwyn cyfrifo pellteroedd o'r cartref i'r ysgol.

Tabl 7 – Meini prawf goralw ar gyfer addysg gynradd

Sut fydd y cynnig yn effeithio ar ddalgylchoedd cyfrwng Saesneg?

Mae'r holl drefniadau o ran dalgylchoedd ac ysgolion sy'n bwydo ei gilydd ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae adolygiad eang i fod i ddiwydd yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ynghylch trefniadau derbyn yn y dyfodol.

Capasiti

A fydd opsiwn i'r rhai y byddai'n well ganddynt addysg cyfrwng Saesneg?

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer ar y gofrestr ym mhob grŵp oedran yn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg y Barri. Ceir 11 o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg o fewn 2 filltir i Lannau'r Barri.

Ysgol	Capasiti'r Ysgol	Cyfanswm ar y Gofrestr	Cyfanswm y lleoedd gwag
Yr Holl Saint	210	206	4
Ynys y Barri	210	208	2
Tregatwg	420	409	11
Colcot	315	293	22
Gwenfô	210	205	5
Gladstone	420	397	23
High Street	210	213	0
Holton	420	389	31
Parc Jenner	210	212	0
Oakfield	210	170	40
Palmerston	210	205	5
Romilly	630	621	9
Sain Helen	308	283	25
Cyfanswm	3983	3811	177

Tabl 8 – Capasiti ysgolion cynradd Saesneg o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri

Ceir capasiti cyfyngedig yn ysgolion cynradd Ynys y Barri, Romilly a High Street. Fodd bynnag, mae'r data derbyn i ysgolion ar gyfer disgyblion a aeth i mewn i'r dosbarth derbyn dros y tair blynedd flaenorol yn dynodi mai dim ond ar sail agosrwydd y gwrthodwyd lle i ddisgyblion. Felly cafodd yr holl geisiadau gan ddisgyblion yn y dalgylich eu derbyn.

Rhagwelir y bydd diffyg bach o ran lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg erbyn 2022. Gellid ateb y galw hwn trwy ailasesu'r capasiti yn ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner. Dros y 5 mlynedd ddiwethaf cafwyd gwared ar gapasiti o ysgolion cynradd Holton a Pharc Jenner trwy ailneilltuo ystafelloedd. Roedd gan yr ysgolion leoedd gwag yn flaenorol y gellid trefnu eu bod ar gael i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Saesneg. Mae'r ddwy ysgol hon o fewn 2 filltir i ddatblygiad Glannau'r Barri.

Wrth i'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg gynyddu, rhagwelir y bydd gostyngiad cyfatebol yn y galw am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ers 1998, gwelwyd gostyngiad o 5.8% yn y galw am addysg cyfrwng Saesneg, a chynnydd o 6.7% yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Pam nad yw ardal Glannau'r Barri'n cael ei hysgol ei hun, yn ogystal ag ehangu Ysgol Sant Baruc?

Fel rhan o'r cytundeb Adran 106 ar gyfer datblygiad Glannau'r Barri, roedd ysgol newydd i fod i gael ei darparu i ddiwallu anghenion disgyblion ychwanegol a fydd yn deillio o'r datblygiad. Penderfynwyd y byddai angen ysgol â 210 o leoedd i ddiwallu'r anghenion hyn.

Er mwyn atal y costau refeniw uwch sy'n gysylltiedig ag agor ysgol newydd sbon, fe geisiodd y Cyngor gyllid Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu maint yr ysgol o 210 o leoedd i 420 o leoedd fel bod Ysgol Sant Baruc yn gallu trosglwyddo i'r safle a darparu 210 o leoedd ychwanegol ar yr un pryd.

Trafnidiaeth

Sut fydd y Cyngor yn lliniaru'r effaith y byddai'r ysgol hon yn ei chael ar dagfeydd traffig a pharcio?

Mae'r goblygiadau o ran traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu os bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith.

Graddfeydd Amser

Pryd fydd yr ysgol newydd yn agor?

Bwriedir y byddai'r gwaith adeiladu'n dechrau ar safle newydd yr ysgol erbyn mis Ionawr 2020 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2021. Byddai'r adeilad yn seiliedig ar adeiladau newydd blaenorol ar gyfer ysgolion ym Mro Morgannwg, megis Ysgol Gynradd Oak Field, Ysgol Bro Morgannwg, Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Y Ddraig.

Cyfathrebu

Sut fydd preswylwyr yn cael eu cynnwys yn ystod yr ymgynghoriad?

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar 8 Ionawr 2019, ac yn gofyn am adborth erbyn 22 Chwefror 2019. Mae sesiwn galw heibio ar gyfer y gymuned wedi cael ei threfnu yn y Swyddfeydd Dinesig yn y Barri ar 30 Ionawr 2019 rhwng 2:30pm a 6pm.

Gallwch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch roi gwybod i ni. Gallwch wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Bod yn bresennol mewn sesiwn galw heibio a siarad gyda ni wyneb yn wyneb. Mae hon yn ffordd dda o allu cael atebion i unrhyw gwestiynau a all fod gennych am y cynigion. Byddwn yn dal i ofyn i chi gwblhau ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan mai dim ond yn ysgrifenedig y gallwn dderbyn eich barn. Gallwch gysylltu â ni ar 01446 709828 hefyd i gael rhagor o wybodaeth am y cynnig.
- Cwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad ar Ehangu Ysgol Sant Baruc
Cyngor Bro Morgannwg
Y Swyddfeydd Dinesig
Heol Holton
Y Barri
CF63 4RU

Bydd yr holl ymatebion a roddir inni'n ysgrifenedig yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn ei fod yn penderfynu cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynigion neu beidio. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Gymdeithas Preswylwyr ymateb i unrhyw ymholiadau.

Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol	
Camau	Disgrifiad
Cam 1: Datblygu cynnig	Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried gan Gabinet y Cyngor. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi pryd y mae'n ofynnol dilyn y weithdrefn statudol.
Cam 2: Ystyriaeth gan y Cabinet	Cabinet y Cyngor yn ystyried y cynnig a chymeradwyaeth i ymgynghori.
Cam 3: Ymgynghori	Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor. Rhaid i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 diwrnod i ymgynghoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Rhaid i randdeiliaid a enwir yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu trwy lythyr/e-bost.
Cam 4: Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad	Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael ei ystyried a bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Cabinet i gael ei ystyried.
Cam 5: Ystyriaeth gan y Cabinet	Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a rhoi cymeradwyaeth i gyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol.
Cam 6: Hysbysiad statudol	Rhaid i'r hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol ac fel a nodir yn adran 4.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).
Cam 7: Cyfnod gwrthwynebu	Mae gan unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig y cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost a chael eu hanfon at y cynigydd cyn diwedd cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad.
Cam 8: Adroddiad gwrthwynebu	Dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fo gwrthwynebiadau wedi dod i law rhaid i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu").

Cam 9: Ystyriaeth gan y Cabinet	Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu er mwyn penderfynu'n derfynol ar y cynnig.
Cam 10: Llythyr penderfyniad	Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac argaeledd adroddiad gwrthwynebu'n cael ei roi i randdeiliaid.

Tabl 9 – Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol